
y blaid gydweithredol



# Gweithio'n gydweithredol ar gyfer systemau **bwyd cynaliadwy** a **chyfiawn** yng Nghymru

Cardiff University | Prifysgol Caerdydd

Sustainable Places Research Institute
*Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy*

# Rhagair

Cafodd yr adroddiad hwn gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd ei gomisiynu ar y cyd gan Blaid Gydweithredol Cymru ac aelodau o'r Grŵp Cydweithredol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae ein diolch yn mynd i'r awduron Dr Poppy Nicol ac Alice Taherzadeh.

Mae'r ymchwil yn edrych ar sut y gellid ymestyn egwyddorion cydweithredol i gynhyrchu bwyd a systemau bwyd er mwyn darparu ystod eang o fuddion i bobl a chymunedau ledled Cymru. Mae'n ymwneud â'r dirwedd bresennol o gydweithredu yn y sector bwyd yng Nghymru, y rhwystrau rhag twf, ac yn awgrymu argymhellion allweddol i ehangu cydweithfeydd a chreu systemau bwyd mwy cynaliadwy a chyfiawn.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at sgwrs frys am sut gallwn greu systemau bwyd mwy cynaliadwy a chyfiawn; lle mae gan bobl a chymunedau (a chynhyrchwyr a defnyddwyr lleol) fwy o lais yn y bwyd yr ydym yn ei dyfu a'i fwyta; lle rydym yn cadw mwy o'r manteision – swyddi, sgiliau ac elw – sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yn ein heconomïau lleol a rhanbarthol; lle gall cydweithredu ar lefel gymunedol fynd i'r afael â thlodi bwyd a maethiad gwael; ac – yn wyneb newid yn yr hinsawdd a diffyg bioamrywiaeth cynyddol – lle rydym yn cryfhau cynaliadwyedd ein systemau bwyd hefyd.

Mae cyfiawnder bwyd yn ymgyrch allweddol i'r Blaid Gydweithredol yn 2019. Credwn fod yn rhaid i fwyd iach a chynaliadwy fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru, a bod gan gydweithredu rôl allweddol i'w chwarae i gyflawni hynny.

Gobeithio y byddwch chi am fod yn rhan o'r sgwrs hon ar sut i newid y ffordd rydyn ni'n meddwl am fwyd ac yn newid ein perthynas â'r system fwyd. Gall egwyddorion cydweithredol ein helpu i wneud hynny, er mwyn i ni a chenedlaethau'r dyfodol elwa o systemau bwyd mwy cynaliadwy a chyfiawn.

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Grŵp Cydweithredol y Cynulliad

Karen Wilkie
Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol
Y Blaid Gydweithredol

**YSGRIFENNWYD GAN:**

**Poppy Nicol**

NicolP@cardiff.ac.uk

**Alice Taherzadeh**

TaherzadehA@cardiff.ac.uk

# Cynnwys


**System Fwyd Gynaliadwy a Chyfiawn yng Nghymru** ... 2
**Cyflwyniad** ... 3
Cydweithfeydd bwyd yng Nghymru: y sefyllfa bresennol ... 4
Gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol ... 6
Beth yw system fwyd gynaliadwy a chyfiawn? ... 7
**Ymgorffori Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol** ... 8
Deddfu ar gyfer Economïau Cydweithredol ... 10
Astudiaeth Achos yng Nghymru: Banc Organics ... 10
Deddfu ar gyfer newid ar lefel dinas: Dinas Efrog Newydd ... 10
Astudiaeth Achos Rhyngwladol: Rhanbarth Emilia-Romagna ... 11
**Meithrin Economïau Cydweithredol** ... 12
Cynhyrchu'n Gydweithredol ... 12
Dosbarthu a Phrosesu'n Gydweithredol ... 12
Astudiaeth Achos yng Nghymru: Y Rhwydwaith Bwyd Agored ... 13
Masnachu'n Gydweithredol ... 14
Economïau Cydweithredol a Chyfiawnder Bwyd ... 14
Astudiaeth Achos Rhyngwladol: The Stop Community Food Centre: Toronto, Canada ... 14
**Dysgu Gyda'n Gilydd am Gymdeithas Gydweithredol** ... 15
Sefydlu a Rheoli Cydweithfeydd ... 15
Astudiaeth Achos yng Nghymru: Coed Organics ... 16
Addysgu *mewn* cydweithfeydd ... 16
Addysgu *rhwng* cydweithfeydd ... 16
Astudiaeth Achos yng Nghymru: Cae Tan ... 17
Tirwedd Hyfforddi Bwyd yng Nghymru ... 17
Astudiaeth Achos Rhyngwladol: New Entry Sustainable Farming Project ... 18
**Argymhellion Polisi** ... 19
Tri Maes o Argymhellion Polisi ar gyfer System Fwyd Gynaliadwy a Chyfiawn ... 19
**Atodiad** ... 21
Methodoleg ... 21
**Ôl-nodiadau** ... 22

# System Fwyd Gynaliadwy a Chyfiawn yng Nghymru

**Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld ymwybyddiaeth gynyddol gan sefydliadau, sefydliadau llywodraethol a'r cyhoedd ehangach o'r annhegwch cynyddol yn ein system fwyd a'r bygythiadau mae'n eu hwynebu. Ar hyn o bryd, rydym yn symud ymhellach oddi wrth wireddu'r hawl i fwyd iach a diwylliannol addas i bawb yn y gymdeithas. Ar yr un pryd, rydym yn wynebu risgiau deuol ansicrwydd ac ansefydlogrwydd gwleidyddol yn y tymor byr a'r argyfwng sy'n datblygu yn yr hinsawdd yn yr hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn genedl flaenllaw o ran deddfwriaeth cynaliadwyedd, gan gydnabod pwysigrwydd a rhyng-gysylltiad ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn ogystal â ffactorau economaidd. Fodd bynnag, pan fydd ein system economaidd bresennol yn rhoi blaenoriaeth i elw i gyfranddalwyr dros gynaliadwyedd a chyfiawnder, mae'n anodd symud ymlaen gyda'r nodau hollbwysig hyn. Bydd cwtogi ar ffyrdd cydweithredol o weithio ar sail egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol yn galluogi system fwyd gynaliadwy a chyfiawn yng Nghymru a all fynd i'r afael â'r heriau hyn. Drwy ddeddfu ar gyfer cydweithredu, gallai Cymru ddod yn genedl arloesol o ran cynaliadwyedd a chyfiawnder.**

Mae argyfyngau lluosog yn y system fwyd wedi ei gwneud yn glir nad yw canolbwyntio ar fynediad at fwyd fforddiadwy yn ddigon. Er bod nifer pryderus o bobl yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd cael digon o fwyd i osgoi newyn, mae nifer o'r rhain sydd yn cael digon o fwyd yn methu fforddio deiet iach o hyd. Nid yw mwyafrif dinasyddion Cymru yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau.[1] Mae lefelau gordewdra wedi bod yn cynyddu'n raddol, ynghyd â diffygion microfaethynnau a chlefydau sy'n gysylltiedig â deiet.[2] Ar yr un pryd, mae nifer y bobl sydd angen defnyddio cyflenwadau brys mewn banciau bwyd wedi cynyddu'n syfrdanol.[3]

Mae systemau amgylcheddol byd-eang yn cael eu gwthio i'r torbwynt gyda chynhyrchu bwyd yn cyfrif am lawer iawn o'r difrod.[4] Bydd hyn, ynghyd ag ansicrwydd gwleidyddol, yn debygol o achosi i brisiau bwyd gynyddu yn y blynyddoedd i ddod ac arwain at gyflenwad bwyd bregus.[5]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yn ddiweddar ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd.[6] Mae angen i gamau tuag at economi carbon isel gymryd ymagwedd gyfannol sy'n cynnwys ystyried effaith amgylcheddol y system fwyd. Mae angen mwy o gydweithrediad ar bob lefel o gymdeithas er mwyn creu system fwyd gynaliadwy sy'n gallu sicrhau mynediad teg at fwyd iach i bobl Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r potensial ar gyfer ffyrdd cydweithredol o weithio yn y system fwyd i gefnogi system fwyd gynaliadwy a chyfiawn yng Nghymru. Yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol, mae'n nodi heriau allweddol a grymoedd cyfyngol sy'n wynebu cydweithfeydd sy'n gweithio yn y sector bwyd yng Nghymru, yn ogystal â'r cyfleoedd ar gyfer cydweithfeydd bwyd a pholisi cydweithredol yn y dyfodol yng Nghymru.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o **heriau allweddol** y mae cynaliadwyedd cydweithfeydd a ffyrdd cydweithredol o weithio yn sector bwyd Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr heriau sy'n ymwneud â chystadlu â system fwyd sy'n seiliedig ar gynhyrchu bwyd rhad yn ddiwydiannol sy'n gorfod teithio pellteroedd drud;
- Cyfleoedd cyfyngedig i weithio'n gydweithredol yng Nghymru ar gyfer prosesu a dosbarthu;
- Cyfleoedd hyfforddi amrywiol a phrin ar gyfer amaethyddiaeth gynaliadwy, ynghyd â diffyg cyngor a chefnogaeth briodol i strwythur cyfreithiol cydweithredol ar gyfer cydweithfeydd yn y system fwyd.

O dan yr heriau hyn, mae'r astudiaeth hon yn dangos sut mae cydweithfeydd a ffyrdd cydweithredol o weithio yn chwarae rhan bwysig yn economi bwyd Cymru, er yn newydd. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid – yn enwedig y rhai oedd eisoes yn gweithio ym maes cynhyrchu, prosesu[7] a dosbarthu bwyd cynaliadwy – yn teimlo bod rôl ehangach i ffyrdd cydweithredol o weithio ac economïau cydweithredol i gefnogi dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn yng Nghymru.

O'u hymgorffori mewn cymunedau lleol a'u harwain gan werthoedd cydweithredol, mae dulliau cydweithredol o weithio yn dangos potensial i gefnogi systemau bwyd sy'n seiliedig ar werthoedd yn seiliedig ar ddemocratiaeth, undod, cydraddoldeb a thegwch. Mae angen ystyried hyn ar bob cam o'r broses, o gynhyrchu i fwyta, ac mae'n dibynnu ar gyfuno adnoddau a gwybodaeth ar y cyd i greu rhwydweithiau bwyd lleol gwydn. Mae'r materion sy'n ymwneud â datblygu system fwyd gydweithredol, gynaliadwy a chyfiawn yn cael eu harchwilio drwy'r themâu allweddol canlynol:

- Pwysigrwydd gwerthoedd ac egwyddorion mewn systemau bwyd cynaliadwy a chyfiawn;
- Yr angen am ddulliau cydweithredol o brosesu a dosbarthu;
- Cefnogi drwy addysg, hyfforddiant a gwybodaeth.

Ym mhob adran rydym yn nodi materion allweddol ac yn darparu astudiaethau achos enghreifftiol o Gymru. Gan symud y tu hwnt i'r heriau a nodwyd, rydym hefyd yn cyflwyno cyfres o astudiaethau achos o Gymru ac astudiaethau achos rhyngwladol fel ysbrydoliaeth ar gyfer dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn. Ynghyd â chanfyddiadau o'r cyfweliadau, mae'r rhain yn llywio ein hargymhellion polisi.

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n cael eu hamlygu a chreu system fwyd o'r fath, mae'n rhaid i Gymru ddatblygu polisi bwyd integredig sy'n cefnogi:

1) Sefydlu cydweithfeydd bwyd ar bob lefel ac ehangu er mwyn cynyddu nifer y cydweithfeydd bwyd yng Nghymru.

2) Atebion cydweithredol i brosesu a dosbarthu bwyd fel canolbwyntiau bwyd i feithrin economïau lleol, cefnogi cynhyrchwyr bach a chanolig eu maint, lleihau effaith amgylcheddol trafnidiaeth, a galluogi gwell defnydd o adnoddau.

3) Tirwedd hyfforddi fwy cysylltiedig a chynhwysfawr yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu bwyd cynaliadwy sy'n cysylltu sefydliadau bwyd a ffermio, cynhyrchu bwyd trefol a gwledig, a sefydliadau addysgol.

4) Ehangu cynhyrchiant garddwriaethol a chnydau âr ar raddfa fach drwy gael mynediad at dir a hyfforddiant ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chyngor busnes i gynhyrchwyr yn y sectorau cig a llaeth sy'n dymuno arallgyfeirio.

## Cydweithfeydd bwyd yng Nghymru: y sefyllfa bresennol

Yng Nghymru, fe wnaethom nodi amrywiaeth o sefydliadau a busnesau oedd yn defnyddio ffyrdd cydweithredol o weithio yn y system fwyd. Yn ogystal â'r rhai sy'n gweithredu drwy strwythur cyfreithiol y Gymdeithas Gydweithredol, fe wnaethom hefyd nodi sefydliadau oedd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd a chyfiawnder bwyd a oedd yn eu diffinio'u hunain fel cydweithfeydd.

Ar y cyfan, mae cydweithfeydd bwyd yng Nghymru yn gallu bod yn un o sawl ffurf: **cydweithfeydd cynhyrchwyr neu wasanaeth** (rhwng cynhyrchwyr), **cydweithfeydd gweithiwr neu aml-randdeiliaid** (o fewn busnesau bwyd), neu **gydweithfeydd defnyddwyr** (rhwng defnyddwyr).

Mae tua 60 o gydweithfeydd bwyd ac amaethyddol wedi'u cofrestru yng Nghymru[8] sy'n amrywio o siopau pentref sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned i gynlluniau sicrhau ansawdd dan arweiniad cynhyrchwyr. Yn ogystal â hynny, mae nifer o fentrau cydweithredol mwy anffurfiol. Yn fwyaf nodedig, roedd tua 300 o fentrau bwyd cydweithredol cymunedol ledled Cymru wedi'u creu ers 2004 drwy'r rhaglen Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol a ariannwyd gan Uned Adfywio Gwledig Cymru.[9] Fodd bynnag, daeth yr arian i ben ar gyfer y rhaglen hon yn 2015 ac ers hynny mae nifer fawr wedi peidio â bodoli.

Nid yw'r sector bwyd cydweithredol yng Nghymru wedi'i ddatblygu'n ddigonol, yn enwedig ar lefel cynhyrchwyr. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau diddorol, yn enwedig yn y sector cig a llaeth, o gynhyrchwyr yn grwpio gyda'i gilydd ar gyfer gwasanaethau neu i gyflenwi marchnadoedd lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Prin iawn yw'r cydweithfeydd bwyd gweithwyr yng Nghymru, er bod nifer o fusnesau megis cynlluniau Amaethyddiaeth â Chymorth Cymunedol (CSA) yn defnyddio model aml-ddeiliad o ran strwythur

cydweithredol. Mae cydweithfeydd defnyddwyr ffurfiol yn tueddu i fod ar ffurf siopau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig, gan ymateb yn aml i gau siopau pentref heb dueddiad i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd neu gyfiawnder. Mae Marchnadoedd Gwledig[10] sy’n cael eu rhedeg yn gydweithredol ledled Cymru hefyd yn gweithio i gysylltu cynhyrchwyr lleol â defnyddwyr.

## Gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol

### *Diffiniad o Gydweithfa*

Mae cydweithfa yn gymdeithas ymreolaethol o bobl sy'n uno'n wirfoddol i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin drwy fenter mewn cyd-berchnogaeth ac sy'n cael ei rheoli'n ddemocrataidd.[11]

### *Gwerthoedd Cydweithredol*

Mae cydweithfeydd yn seiliedig ar werthoedd hunangymorth, hunan-gyfrifoldeb, democratiaeth, cydraddoldeb, tegwch, ac undod. Yn nhraddodiad eu sylfaenwyr, mae aelodau cydweithredol yn credu yng ngwerthoedd moesegol gonestrwydd, bod yn agored, cyfrifoldeb cymdeithasol a gofalu am eraill.[12]

### *Egwyddorion Cydweithredol*[13][14]

- # 1 - Aelodaeth Wirfoddol ac Agored
- # 2 - Rheolaeth Aelodau Democrataidd
- # 3 - Cyfranogiad Economaidd gan Aelodau
- # 4 - Ymreolaeth ac Annibyniaeth
- # 5 - Addysg, Hyfforddiant a Gwybodaeth
- # 6 - Cydweithredu ymhlith Cydweithfeydd
- # 7 - Pryder am y Gymuned

## Beth yw system fwyd gynaliadwy a chyfiawn?

Gan ddefnyddio’r llenyddiaeth ar gyfer bwyd cynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol yn ogystal â safbwyntiau rhanddeiliaid, mae'r adroddiad hwn yn deall bod system fwyd yn cynnwys cynhyrchu, prosesu, dosbarthu, defnyddio a gwaredu bwyd.

Fel yn adroddiad Eat Lancet[15], rydym yn deall bod **cynhyrchu bwyd cynaliadwy** yn golygu *“aros o fewn ffiniau planedol diogel”* tra'n cynnig **deiet iach cynaliadwy** sydd[16] *"yn cynnwys llysiau, ffrwythau, grawn cyflawn, codlysiau, cnau ac olewau annirlawn yn bennaf, yn cynnwys swm bach i gymedrol o fwyd môr a dofednod, ac yn cynnwys swm isel o neu ddim cig coch, cig wedi'i brosesu, siwgr ychwanegol, grawn wedi'i fireinio, a llysiau startshlyd.”*

Rydym yn adeiladu ar y ddealltwriaeth hon gyda'r cysyniad o **fwyd cyfiawn**[17], a ddiffinnir fel *“cymunedau'n arfer eu hawl i dyfu, gwerthu a bwyta bwyd iach”* lle deellir bod bwyd iach yn golygu bwyd sydd *“yn ffres, yn faethlon, yn fforddiadwy, yn ddiwylliannol-briodol ac wedi'i dyfu'n lleol gyda gofal am les y tir, gweithwyr ac anifeiliaid.”*

Mae **system fwyd gynaliadwy** a **chyfiawn** yn un sy'n integreiddio cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd yn fwriadol fel sydd wedi’i gwmpasu yng nghysyniad Agyeman et al. o **gynaliadwyedd gyfiawn**[18]:

> *“Yr angen i sicrhau ansawdd bywyd gwell i bawb, nawr ac yn y dyfodol, mewn modd cyfiawn a chyfartal, tra'n byw o fewn terfynau'r ecosystemau sy'n eu cynnal.”*

Gwelsom fod gan randdeiliaid ddealltwriaeth glir o system fwyd gynaliadwy a oedd weithiau'n cwmpasu pryderon am gyfiawnder fel sydd wedi’u diffinio uchod. Roedden nhw’n tueddu i ddiffinio system fwyd gynaliadwy fel un a fyddai'n diogelu cenedlaethau'r dyfodol drwy ystyried materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, gan bwysleisio:

- Rhwydweithiau bwyd lleol a symud tuag at hunangynhaliaeth yng Nghymru fel allwedd i systemau bwyd cynaliadwy, o ran ailgysylltu pobl â bwyd yn ogystal â lleihau effaith economaidd ac amgylcheddol bwyd sy'n cael ei fewnforio;
- Pwysigrwydd iechyd y pridd, iechyd a lles anifeiliaid, lleihau mewnbynnau allanol, ac osgoi difrod amgylcheddol gyda nifer o randdeiliaid yn sôn am ffermio organig, bioddeinamig a permaddiwylliant fel dulliau cynaliadwy;
- System sy'n cydnabod bwyd fel hawl sylfaenol yn hytrach na nwydd yn unig ac sy'n sicrhau pris teg i gynhyrchwyr.

Roedd ymdeimlad clir hefyd o agweddau ar y system fwyd bresennol a oedd yn anghynaladwy, gan gynnwys: pwysau'r farchnad i ostwng prisiau bwyd, cystadleuaeth yn seiliedig ar brisiau, goruchafiaeth archfarchnadoedd ac archebu mewn union bryd. Nodwyd bod yr holl ffactorau hyn yn arwain at wasgu cynhyrchwyr bach a manwerthwyr lleol allan.

# Ymgorfforí Gwerthoedd ac Egwyddorion Cydweithredol

**Mae dulliau cydweithredol o weithio yn ffordd o feddwl ac yn ddiwylliant, gan ddibynnu ar gydweithredu yn hytrach na chystadleuaeth a chydweithio yn hytrach na gwrthdaro. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur cyfreithiol cydweithredol yn ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau bod gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol wedi'u gwreiddio mewn arferion. Mae angen gwerthoedd cymdeithasol ehangach er mwyn cael llwyddiant cydweithredol. O'u harwain gan werthoedd ac egwyddorion cydweithredol, mae gan gydweithfeydd ac economïau cydweithredol y potensial i gefnogi datblygiad dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn yng Nghymru.**

Dangosodd llawer o randdeiliaid sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd cynaliadwy sut mae **gwerthoedd cydweithredol** democratiaeth, undod, cydraddoldeb, tegwch, hunangymorth a hunan-gyfrifoldeb ac **egwyddorion cydweithredol** wedi'u gwreiddio yn eu sefydliad a sut maen nhw'n ategu'r ymdrech i gael dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn.

Tueddai rhanddeiliaid oedd yn ymwneud â chynhyrchu bwyd ecolegol ar raddfa fach a rhwydweithiau bwyd lleol i rannu'r syniad eu bod yn rhan o fudiad byd-eang yn gweithio tuag at ffyrdd amgen o fasnachu yn seiliedig ar gydweithredu a chydweithio. O fewn y sefydliadau hyn, roedd ffyrdd cydweithredol o weithio yn cynnwys cydweithredu â systemau ecolegol yn ogystal â systemau cymdeithasol. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn eu bod yn gweithio mewn undod â sefydliadau bwyd cynaliadwy eraill er mwyn adeiladu economïau bwyd mwy cynaliadwy a chyfiawn.

### Gwneud penderfyniadau ar y cyd – boed yn anffurfiol neu'n ffurfiol



Roedd rhanddeiliaid, yn enwedig y rheiny o fewn cydweithfeydd gweithwyr, yn gwerthfawrogi **prosesau gwneud penderfyniadau democrataidd** ar y cyd a **strwythurau cyfundrefnol anhierarchaidd**. Gall y prosesau a'r strwythurau hyn gefnogi systemau bwyd cynaliadwy a chyfiawn drwy feithrin tegwch, cydraddoldeb, undod a grymuso o fewn sefydliadau.

### Cyd-berchnogaeth – rhannu cyfrifoldeb a gwobrau



Mae sefydliadau sy'n cael rhedeg yn gydweithredol yn dibynnu ar ddosbarthu **cyfrifoldeb** a **gwobrwyon** yn gyfartal ymysg aelodau. Mae dosbarthu perchenogaeth a chyfoeth yn deg fel nad yw'r cyfrifoldeb a'r gwobrwyon yn cael eu crynhoi yn nwylo ychydig ond yn cael eu dosbarthu ymhlith y nifer yn lleihau anghydraddoldebau, gan hyrwyddo systemau bwyd mwy cyfiawn.

### Cyd-gyfrifoldeb – gweithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin



Mae strwythurau cydweithredol yn galluogi aelodau i **weithio gyda'i gilydd** tuag at nod cyffredinol a fyddai fel arall yn anodd ei gyflawni'n unigol. Mae hyn yn dibynnu ar roi gwerthoedd cydweithredol **hunangymorth** a **hunan-gyfrifoldeb** ar waith, lle mae pob aelod yn cymryd cyfrifoldeb i helpu eu hunain ac i helpu eraill. Mewn cymdeithas gydweithredol, mae gan bawb ran i'w chwarae wrth greu dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn.

### Cydweithio ymysg cwmnïau cydweithredol



Mae **cydweithredu** yn sail i ffyrdd cydweithredol o weithio – gan gynnwys **cyfuno adnoddau** ac egwyddor **undod** o ran cydweithio fel un ar y cyd yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd. Gall **rhwydweithiau** cydweithredol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gefnogi'r gwaith o ehangu ffyrdd cydweithredol o weithio ac economïau cydweithredol.

### Addysg, hyfforddiant a gwybodaeth



Mae addysg a hyfforddiant i aelodau a gwybodaeth i'r cyhoedd yn egwyddor gydweithredol graidd. Mae cryfhau dysgu cydweithredol drwy **addysg, hyfforddiant a gwybodaeth** yn hanfodol wrth adeiladu gwerthoedd cydweithredol cynhwysol o fewn y gymdeithas a'r economi – sylfeini dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn.

### Cydweithio i'r gymuned



Teimlai nifer o randdeiliaid fod gan ffyrdd cydweithredol o weithio y potensial i gefnogi **systemau bwyd ecolegol, cymunedol** ac **economïau lleol.** Roedd hyn yn deimlad a godwyd yn arbennig ymysg rhanddeiliaid oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau lleol drwy'r cynlluniau CSA, cynlluniau bocsys llysiau a chanolfannau bwyd.

Wrth wraidd gweledigaeth pob rhanddeiliad ar gyfer system fwyd gynaliadwy a chyfiawn, fe nodwyd llawer o'r egwyddorion a'r gwerthoedd cydweithredol. Fodd bynnag, fe wnaeth llawer o'r rhai oedd yn gweithio tuag at greu dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn dynnu sylw at yr heriau o weithredu mewn system fwyd sydd ar hyn o bryd yn cael ei dominyddu gan fanwerthwyr lluosog a ffyrdd nad ydynt yn gydweithredol o weithio.

## Deddfu ar gyfer Economïau Cydweithredol

Ar hyn o bryd, mae economi Cymru'n cael ei dominyddu gan ddulliau gweithio nad ydynt yn rhai cydweithredol. Fel y dangoswyd yn achos Banc Organics[19], mae angen màs critigol yn economi Cymru er mwyn cyflawni newidiadau sylweddol tuag at ffyrdd cydweithredol o weithio. Mae hyn yn dibynnu ar feithrin gwerthoedd cydweithredol mewn cymdeithas.

### Astudiaeth Achos yng Nghymru: Banc Organics



Mae Banc Organics yn rhan o gwmni dielw cyfyngedig drwy warant sy'n gweithredu yn ôl egwyddorion cydweithredol. Fel prosiect amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned (CSA), maen nhw'n tyfu ac yn dosbarthu llysiau organig bob wythnos i aelodau sy'n byw yng nghymoedd y Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Fel rhan o'r cynllun, anogir aelodau i gymryd rhan yn y gwaith o dyfu eu bwyd, yn ogystal â dod i adnabod ei gilydd. Maent yn cynnal Diwrnodau Fferm misol a Swper Cynhaeaf blynyddol.

Fel mae'r prif dyfwyr yn egluro, mae egwyddorion cydweithredol yn sail i weithrediadau: *"bod yn berchen ar ein ffordd o gynhyrchu a bod gan y gweithwyr ddweud mewn pethau, cael rheolaeth ddemocrataidd dros bethau a'u seilio ar bethau ar wahân i'r farchnad"*

Amodau'r farchnad yw un o'r heriau allweddol sy'n wynebu mentrau garddwriaethol cynaliadwy ar raddfa fach sy'n gweithredu yng Nghymru: *"pris bwyd, y gystadleuaeth ryngwladol, y ffaith y gall pobl gynhyrchu bwyd drwy dorri costau a thorri corneli drwy wrth allanoli costau er gwaethaf difrod i'r amgylchedd."*

Er mwyn ehangu ffyrdd cydweithredol o weithio yn y system fwyd yng Nghymru, mae angen 'màs critigol' o gydweithfeydd: *"gyda ffyrdd cydweithredol o weithio mae'r mater o gael màs critigol o gydweithfeydd a gobeithio y byddai'r ethos cydweithredol yn caniatáu iddyn nhw gefnogi ei gilydd."*

Fel sydd i'w weld yn achos Emilia Romagna yn yr Eidal a Dinas Efrog Newydd, gall llywodraethau chwarae rhan allweddol yn y gwaith o feithrin gwerthoedd cydweithredol drwy weithredu polisïau sy'n hyrwyddo ac yn annog ffyrdd cydweithredol o weithio ar raddfeydd rhanbarthol a dinas.

### Deddfu ar gyfer newid ar lefel dinas: Dinas Efrog Newydd

Yn Efrog Newydd, mae llywodraeth y ddinas yn mabwysiadu rheoliadau i gynorthwyo cydweithfeydd. Mae gan gyrff llywodraethol y potensial i gefnogi cydweithfeydd drwy roi blaenoriaeth i gydweithfeydd pan fyddan nhw'n mynd mewn i gontract ar gyfer nwyddau neu wasanaethau.


Ffynhonnell:[20]

## Astudiaeth Achos Rhyngwladol: Rhanbarth Emilia-Romagna

Yn Emilia-Romagna, rhanbarth yng ngogledd yr Eidal, mae cydweithfeydd yn cynhyrchu tua 30 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth y rhanbarth ac mae dau o bob tri o'r trigolion yn aelodau o gydweithfa. Rhan o gryfder yr economi gydweithredol ranbarthol hon fu'r ystod o rwydweithiau llorweddol, fertigol ac ategol. Fodd bynnag, mae hefyd nifer o fframweithiau deddfwriaethol sy'n cefnogi cydweithfeydd a ffyrdd cydweithredol o weithio.

Mae un gyfraith yn eithrio elw cydweithredol sy’n cael eu cadw fel cronfeydd wrth gefn o drethiant corfforaethol (mae'r elw hwn yn anwahanadwy i aelodau). Mae cyfraith arall hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i 3% o'r elw gael ei anfon at gronfeydd datblygu cydweithredol a ffederasiynau, gan gryfhau'r mudiad cydweithredol drwy greu cyd-ffederasiwn newydd a chefnogi'r rhai sy'n bodoli eisoes.

Mae llwyddiant cydweithredol yn rhanbarth Emilia-Romagna yn adlewyrchu gwerthoedd cydweithredol cymdeithasol ehangach. Ystyrir bod cyfalaf cymdeithasol ac ariannol sy'n cael ei ddatblygu gan gydweithfeydd yn perthyn nid yn unig i'r aelodau presennol ond i genedlaethau'r dyfodol.



Mae Parmigiano Reggiano yn un o 44 o gynhyrchion PDO a PGI o ranbarth Emilia Romagna.[1]

Ffynhonnell: [21]; [22]; [23]; [24]; [25];[26]

Er mwyn ehangu ffyrdd cydweithredol o weithio yng Nghymru ac adeiladu system fwyd gynaliadwy a chyfiawn sy'n ffynnu yng Nghymru, mae cefnogaeth i sectorau y tu hwnt i'r system fwyd yn allweddol. Mae angen i gydweithfeydd bwyd gael eu lleoli o fewn tirwedd gydweithredol ehangach mewn cymdeithas lle mae ffyrdd cydweithredol o weithio yn dod yn brif ffrwd – boed hynny ar ffurf cydweithfeydd tai cymdeithasol, cynlluniau ynni cydweithredol neu gyllid cydweithredol – yn ogystal â llunio polisïau ar ystod o raddfeydd.

Bydd gweithio tuag at roi ffyrdd cydweithredol o weithio wrth wraidd polisi Cymru yn gwneud Cymru yn genedl arloesol o gydweithredwyr.

*Egwyddorion cydweithredol*

# Meithrin Economïau Cydweithredol

**Mae gweithio mewn modd cydweithredol yn meithrin economïau cydweithredol yn hytrach na chystadleuol; defnydd effeithlon ac ecolegol o adnoddau; a ffyrdd mwy cyfiawn, democrataidd o fasnachu. O fewn y system fwyd mae economïau cydweithredol yn cysylltu cynhyrchwyr a defnyddwyr ac yn meithrin undod; rhannu adnoddau, offer a seilwaith; ac ehangu economïau cydweithredol mwy teg a chyfiawn.**

Nododd rhanddeiliaid nifer o heriau allweddol mae cydweithfeydd a ffyrdd cydweithredol o weithio yn eu hwynebu ar hyn o bryd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mynediad i dir, costau dosbarthu, diffyg unedau prosesu a goruchafiaeth economïau bwyd nad ydynt yn adlewyrchu costau ecolegol neu gymdeithasol bwyd yn gywir. Mae mwy o ganolfannau ar hyn o bryd sy'n dangos bod bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol yn cael ei brosesu a'i ddosbarthu yng Nghymru. Nodwyd bod unedau prosesu sy'n cael eu rhedeg ar y cyd, canolbwyntiau bwyd a chanolfannau bwyd cymunedol yn ffordd effeithiol o gefnogi economïau bwyd cynaliadwy a chyfiawn yng Nghymru.

## Cynhyrchu'n Gydweithredol

Ar hyn o bryd, mae 0.1% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio i dyfu ffrwythau a llysiau - 1,599 hectar allan o 1,842,878 hectar o dir amaethyddol.[27] Mae hyn yn ddigon i roi amcangyfrif o 5% o'r gofyniad ar gyfer poblogaeth Cymru (yn seiliedig ar 5 y dydd).[28] Roedd y rhai oedd yn ymwneud â garddwriaeth ar raddfa fach, fodd bynnag, yn teimlo bod cyfleoedd sylweddol ar gyfer ehangu cynhyrchu garddwriaethol a datblygu economïau bwyd lleol yng Nghymru. Ystyriwyd bod canolbwyntiau bwyd ar gyfer dosbarthu ar y cyd yn ffordd o ehangu economïau bwyd lleol cynaliadwy a galluogi mwy o gymunedau i gael mynediad at fwyd lleol, ecolegol a fforddiadwy.

Roedd llawer o gynhyrchwyr yn teimlo bod angen prisio sy'n adlewyrchu gwir gostau cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn gynaliadwy ac yn foesegol. Yma, gwelsant gyfle i weithredu mewn marchnadoedd bwyd lleol lle mae strwythurau prisio sy'n adlewyrchu costau ecolegol a chymdeithasol 'gwirioneddol' bwyd, tra eu bod hefyd yn cefnogi cymunedau i gael gafael ar fwyd fforddiadwy, iach.

Er mwyn cynhyrchu bwyd cynaliadwy ar raddfa eang, mae angen: mwy o gynhyrchu ffrwythau a llysiau yng Nghymru; mwy o gefnogaeth o ran mynediad i dir (yn arbennig ar gyfer tyfwyr newydd), hyfforddiant ar gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, cymorth seilwaith i ganolbwyntiau bwyd.

## Dosbarthu a Phrosesu'n Gydweithredol

Nodwyd bod cludo cynnyrch ar draws rhanbarthau Cymru a thu hwnt yn her mae cydweithfeydd yn ei hwynebu, yn enwedig ymhlith cydweithfeydd mwy sy'n dosbarthu ac yn prosesu ac sy'n cael eu harwain gan gynhyrchwyr. Er bod cydweithfeydd yn galluogi cynhyrchwyr i weithio ar y cyd, mae costau trafnidiaeth yn un o'r heriau mwyaf arwyddocaol

o ran cynaliadwyedd a nodwyd ymhlith rhanddeiliaid o'r sector cig a llaeth - yn enwedig o ran cludo cynnyrch crai gyda hyd oes byr, megis llaeth. Nodwyd bod y diffyg unedau prosesu sy’n cael eu rhedeg yn gydweithredol yng Nghymru, yn enwedig yn y sectorau llaeth organig, cig a grawn, yn her allweddol mae cydweithfeydd yn ei hwynebu.

Tra'n cydnabod yr heriau o lywio daearyddiaeth Cymru, roedd nifer o randdeiliaid yn cydnabod manteision posibl cynhyrchu, dosbarthu a masnachu yng Nghymru drwy economïau bwyd lleol. Fe wnaeth rhai cynhyrchwyr awgrymu fod gweithio’n gydweithredol yn galluogi llywio tirwedd a allai fod yn heriol yng nghefn gwlad Cymru - yn enwedig i gynhyrchwyr bach mewn ardaloedd anghysbell o Gymru, na fyddent fel arall yn gallu cyrraedd marchnadoedd. Gallai hyn hefyd gynnwys rhannu peiriannau mawr, sydd fel arall yn anhygyrch i gynhyrchwyr bach.

Nodwyd fod canolbwyntiau prosesu a dosbarthu bwyd yn gydweithredol yn hanfodol ar gyfer galluogi rhagor o gymunedau yng Nghymru i gael gafael ar fwyd fforddiadwy, wedi’i gynhyrchu’n fforddiadwy. Nodwyd y bwlch hwn gan randdeiliaid fel cyfleoedd posibl ar gyfer dyfodol bwyd cynaliadwy yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen costau sefydlu a chymorth seilwaith sylweddol arnynt, yn enwedig pe baent yn cael eu rhedeg yn gydweithredol.

### Astudiaeth Achos yng Nghymru: Y Rhwydwaith Bwyd Agored

Mae'r Rhwydwaith Bwyd Agored yn **gydweithfa platfform** sy'n cefnogi datblygu canolbwyntiau ar gyfer dosbarthu bwyd yn lleol. Mae'r aelodau'n cynnwys cynhyrchwyr bwyd a chanolbwyntiau a siopau bwyd. Drwy'r platfform ar-lein, gall cynhyrchwyr werthu i siopau a chanolbwyntiau eraill yn ogystal ag yn uniongyrchol i ddefnyddwyr; gall cyfanwerthwyr reoli grwpiau prynu a chyflenwi canolbwyntiau bwyd; gall cymunedau sefydlu



Ar hyn o bryd, mae dros 1,000 o gynhyrchwyr a thua 50 o fentrau cymunedol sy'n rhedeg canolbwyntiau bwyd lleol wedi'u cofrestru ar Rwydwaith Bwyd Agored y DU. Mae meddalwedd ffynhonnell agored yn cefnogi dosbarthu bwyd lleol drwy ganolbwyntiau bwyd. Fel model o feddalwedd sy’n cael ei redeg yn gydweithredol, mae'r holl aelodau'n berchen ar y meddalwedd a'r data.

Yn ôl Nick Weir (Y Rhwydwaith Bwyd Agored):

*“Mae OFN yn byrhau cadwyni cyflenwi bwyd...gan roi cymaint o werth ag sy’n bosibl i'r cynhyrchwr tra'n gwneud bwyd mor fforddiadwy â phosibl i'r rhai sy'n ei fwyta.” (OFN)*

## Masnachu'n Gydweithredol

Mae meddalwedd ar-lein ac offer digidol yn cynnig ffordd o oresgyn rhai heriau mae'r sector bwyd yn eu hwynebu - galluogi cymorth technegol (er enghraifft, meddalwedd sy'n cynorthwyo cynhyrchwyr i gyrraedd safonau ansawdd penodol); dosbarthu (er enghraifft, drwy blatfformau ar-lein); ac adeiladu rhwydwaith (er enghraifft, drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol ar-lein). Nodir bod y Rhwydwaith Bwyd Agored[29] (OFN) yn enghraifft arloesol o gydweithfa sy'n defnyddio technoleg i gefnogi economïau bwyd lleol.

## Economïau Cydweithredol a Chyfiawnder Bwyd

Mae gan ganolbwyntiau bwyd y potensial i gefnogi dyfodol cynaliadwy a bwyd cyfiawn. Rydym yn deall canolbwyntiau bwyd fel "rhwydweithiau a rhyng-adrannau o sefydliadau llawr gwlad, sefydliadau cymunedol ac unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i adeiladu systemau bwyd sy'n fwy cyfiawn yn gymdeithasol, yn economaidd gadarn ac ecolegol gryf sy'n cysylltu ffermwyr â defnyddwyr mor uniongyrchol â phosibl."[30] Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn o ganolfannau bwyd byddem yn cynnwys canolbwyntiau dosbarthu bwyd, platfformau ar-lein, marchnadoedd ffermwyr, ceginau cymunedol a rhaglenni ardystio, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.

Mae Stop Community Food Centre[31] yn cyflwyno enghraifft arloesol o ganolbwynt cymunedol sy'n mynd i'r afael â chyfiawnder bwyd drwy feithrin economïau bwyd lleol.

### Astudiaeth Achos Rhyngwladol: The Stop Community Food Centre: Toronto, Canada

Mae The Stop yn ganolbwynt cymunedol sy'n cefnogi mynediad i gynnyrch lleol, ecolegol a sgiliau bwyd mewn cymdogaeth incwm isel yn Toronto. Mae eu gwaith yn mynd **i'r afael â mynediad bwyd iach** drwy brydau cymunedol, marchnadoedd cynnyrch ffres fforddiadwy a rhaglenni dosbarthu bwyd iach; **yn adeiladu sgiliau, gwybodaeth a hyder bwyd** drwy geginau cymunedol, gerddi a rhaglenni hyfforddi; **yn cefnogi addysg ac ymgysylltiad** drwy eiriolaeth a chymorth gan gymheiriaid, hyfforddiant gweithredu cymunedol, clybiau cyfiawnder cymdeithasol a rhaglenni gwirfoddol.




Fe wnaeth cymunedau eraill sylwi ar fodel pwerus The Stop, ac yn 2012 lansiwyd Community Food Centres Canada (CFCC) i sbarduno datblygiad canolfannau bwyd cymunedol yn seiliedig ar The Stop ledled y wlad. Heddiw, mae'r ddau sefydliad unigol, annibynnol hyn yn cefnogi gwaith ei gilydd i eiriol dros gymunedau iachach a pholisi cymdeithasol tecach.

*Egwyddorion cydweithredol*

# Dysgu Gyda'n Gilydd am Gymdeithas Gydweithredol

**Mae'r ymrwymiad i addysg yn egwyddor gydweithredol graidd. Trafodwyd addysg, hyfforddiant a gwybodaeth gyda'r holl randdeiliaid yn yr astudiaeth hon, gan gynnwys cymorth i sefydlu a rheoli cwmnïau cydweithredol yn ogystal â'r dirwedd hyfforddi ehangach ar gyfer systemau bwyd cynaliadwy. Nodwyd mai cyllid oedd y prif rwystr gan randdeiliaid o ran cael mynediad at hyfforddiant cyson o ansawdd uchel a chyngor perthnasol.**

Mae potensial enfawr i wella ansawdd ac argaeledd cyngor a hyfforddiant ar gydweithfeydd yn y sector bwyd yng Nghymru yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gydweithfeydd. Byddai buddsoddi yn y gwasanaethau darparu hyn yn helpu i ehangu economïau bwyd cydweithredol yng Nghymru. Mae rôl allweddol hefyd i addysg o fewn a rhwng cydweithfeydd o ran addysgu aelodau am egwyddorion cydweithredol a chydweithfeydd sy'n cefnogi ei gilydd drwy fentora a chyngor ar strwythur cydweithredol, ac arbenigedd sectoraidd. Mae'r math mewnol ac allanol hwn o undod yn gweithio i ehangu'r economi a'r mudiad cydweithredol yng Nghymru yn ogystal â chynyddu argaeledd hyfforddiant rheoli busnes a hyfforddiant amaethyddol.

## Sefydlu a Rheoli Cydweithfeydd

Gan fod y strwythur cydweithredol yn dal i fod yn gymharol ymylol yn system fwyd Cymru mae angen codi ymwybyddiaeth ynghylch ffyrdd cydweithredol o weithio a chefnogi cydweithfeydd bwyd cynaliadwy newydd sy'n datblygu.

Cafwyd profiadau cymysg yn ymwneud â chefnogaeth i gydweithfeydd bwyd yng Nghymru. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi canfod bod Canolfan Cydweithredol Cymru (WCC) a Co-operatives UK yn gallu rhoi cyngor defnyddiol ar strwythur cyfreithiol tra bod eraill o'r farn mai ychydig o gymorth neu gyngor oedd ar gael yng Nghymru i gydweithfeydd newydd a rhai a oedd yn dechrau arni. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu ffocws cyfredol cyllid WCC - nid yw WCC wedi cael arian yn ymwneud â'r sector bwyd ers 2004. Tynnwyd sylw at y mater hwn mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Busnes Cymdeithasol Cymru[32] sy'n argymell bod WCC yn symud tuag at ddarparu cyngor arbenigol i gydweithfeydd sy'n bodoli eisoes a chydweithfeydd newydd ym maes bwyd.

Mae'n bwysig bod cymorth o'r fath yn cyrraedd pob math o gydweithfeydd ar bob graddfa ac ym mhob sector – er enghraifft, mae bwlch wedi'i nodi mewn hyfforddiant a chymorth arbenigol ar gyfer cydweithfeydd garddwriaethol ar raddfa fach, unedau prosesu cydweithredol, canolbwyntiau bwyd cymunedol a mentrau bwyd eraill sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Ar gyfer cydweithfeydd garddwriaethol ar raddfa fach, roedd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn cael eu hystyried yn sefydliad allweddol ar gyfer cefnogi ffyrdd cydweithredol o weithio drwy raglenni fel rhwydwaith Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned Cymru. Yn ogystal â hyn, mae Cyswllt Ffermio yn darparu cynllun mentora allweddol y gellid ei ehangu i sicrhau ei fod yn gallu cynnig cymorth priodol ar gyfer ffermio cynaliadwy.

Nododd nifer o randdeiliaid hefyd fod y model cydweithredol yn dal i fod yn eithaf ymylol yng Nghymru a bod busnesau bwyd newydd sy'n sefydlu yn aml yn anwybodus ynghylch ffyrdd cydweithredol o weithio wrth geisio cyngor. Rydym yn nodi gwaith ehangach i'w wneud o ran rhoi gwybod i wasanaethau cynghori busnesau Cymru am y cyfleoedd posibl o ran ffyrdd cydweithredol o weithio, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae achos Coed Organics[33] yn enghraifft o'r bwlch yn y cymorth i gydweithfeydd amaethyddol.

### Addysgu *mewn* cydweithfeydd

Nododd rhanddeiliaid allweddol fod addysg *mewn* cydweithfeydd ynghylch egwyddorion cydweithredol yn hanfodol i barhad a chynaliadwyedd y gydweithfa honno. Er nad oedd cael strwythur cyfreithiol cydweithredol yn sicrhau bod y busnes yn cael ei redeg gan egwyddorion cydweithredol, ystyriwyd ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer diogelu ffyrdd cydweithredol o weithio a allai gael eu colli mewn strwythur cydweithredol mwy anffurfiol dros amser.

### Addysgu *rhwng* cydweithfeydd

Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad bwysigrwydd cydweithredu rhwng cydweithfeydd i addysgu am ffyrdd cydweithredol o weithio ac ehangu'r model cydweithredol. Yn ogystal â hynny, roedd rhanddeiliaid oedd yn uniaethu'n gryf â'r gwerthoedd cydweithredol yn aml wedi dod ar draws ffyrdd cydweithredol o weithio drwy ryngweithio â chydweithfeydd eraill drwy hyfforddiant a phrofiad gwaith.

Ar hyn o bryd, mae'r nifer cymharol fach o gwmnïau cydweithredol sy'n bodoli yn y sector bwyd yng Nghymru yn llesteirio'r cyfle hwn i ehangu, ac felly mae angen cymorth sefydliadol arnynt. Unwaith y bydd cydweithfeydd yng Nghymru yn cyrraedd màs critigol, byddant yn fwy hunangynhaliol o ran darparu hyfforddiant cydweithredol i gydweithredu.



### Astudiaeth Achos yng Nghymru: Coed Organics

Mae Coed Organics yn gydweithfa gweithwyr sy'n rhedeg cynllun bocs llysiau ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. Daethant yn Gymdeithas Gydweithredol yn ddiweddar gan fod hyn yn adlewyrchu eu gwerthoedd a'u ffyrdd o weithio presennol yn well. Roeddent o'r farn bod y ddarpariaeth bresennol yng Nghymru ar gyfer sefydlu cydweithfeydd yn ddiffygiol ac yn hytrach na hynny fe wnaethon nhw dderbyn cymorth gan Co-operatives UK, ac roeddent o'r farn ei fod yn wasanaeth defnyddiol ar gyfer cyfeirio pobl at ffynonellau gwybodaeth pellach. Fodd bynnag, fe wnaethant nod ei fod yn dal i "deimlo fel tipyn o ymdrech" i gael cyngor cyson a chlir a'u bod yn dal i deimlo nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau yn cael eu hysbysu am Gymdeithasau Cydweithredol ac yn cael eu hannog i ymchwilio iddynt fel opsiwn.

Yn ogystal â rhwydweithiau a chyngor anffurfiol, soniodd llawer o randdeiliaid hefyd am bwysigrwydd cynlluniau mentora fel y rhai sy'n cael eu cynnig drwy Ymddiriedolaeth

Datblygu Cymru, Busnes Cymru, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Llwybrau i Ffermio a Chyswllt Ffermio.



### Astudiaeth Achos yng Nghymru: Cae Tan

Mae amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned (CSA) yn ddull o ffermio lle mae'r cyfrifoldebau, y risgiau a'r gwobrwyon yn cael eu rhannu rhwng y tyfwyr a'r aelodau. Mae Cae Tan yn CSA sy'n cael ei arwain gan dyfwyr sy'n golygu mai'r tyfwyr sy'n arwain y penderfyniadau, gyda chefnogaeth aelodau'r CSA sy'n talu am gyfran o'r cnwd ar ffurf blwch wythnosol o lysiau. Ar hyn o bryd, mae 120 o aelodau yn Cae Tan CSA sy'n casglu eu blwch llysiau wythnosol o ganolbwynt lleol.

Nod Cae Tan yw helpu i sefydlu tyfwyr newydd a chodi argaeledd cynnyrch lleol. Ar hyn o bryd, mae'r prif dyfwyr a'r tyfwr cynorthwyol yn rheoli gweithrediadau'r fferm, gyda chymorth prentis a nifer o wirfoddolwyr. Drwy'r model CSA, mae Cae Tan yn creu amrywiaeth o gyfleoedd i dyfwyr newydd gan gynnwys hyfforddiant a chyflogaeth. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae dau brentis wedi symud ymlaen i sicrhau cyflogaeth mewn garddwriaeth - mae un wedi dod yn dyfwr cynorthwyol yn Cae Tan, ac mae un wedi sefydlu cydweithfa sy'n tyfu salad. Mae un arall yn gweithio tuag at sefydlu chwaer-CSA yn ardal Abertawe.

Ynghyd â'u cynllun prentisiaeth, mae Cae Tan yn rhedeg Rhaglen Ysgolion Cynaliadwy lle mae disgyblion ysgol gynradd o 5 ysgol yn ardal Abertawe yn dysgu am ffermio cynaliadwy.

## Tirwedd Hyfforddi Bwyd yng Nghymru

Roedd cytundeb eang bod y dirwedd addysg a hyfforddiant bwyd yn “eithaf tenau” a bod angen iddo fod yn fwy cysylltiedig, yn enwedig mewn garddwriaeth. Roedd rhanddeiliaid ar raddfa fach, megis Cae Tan[34], yn gweld eu hunain fel actorion allweddol wrth ehangu cyfleoedd hyfforddi drwy fentora a phrentisiaethau. **Cafodd prentisiaethau seiliedig ar waith** a **hyfforddeiaethau, rhaglenni hyfforddi ffurfiol, cymwysterau i hyfforddwyr** a **chanolfannau hyfforddi** i gefnogi newydd-ddyfodiaid eu nodi fel mentrau a allai gefnogi'r gwaith o ddatblygu dyfodol bwyd cynaliadwy yng Nghymru. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd **achredu hyfforddiant** ar lefelau addysgol

cydnabyddedig. Mae lle i sefydliadau a sefydliadau addysgol gydweithio i ddarparu achrediad, er enghraifft, yn achos cynllun prentisiaeth biodynamig.

**Mae cyllid tymor byr** wedi arwain at **fylchau yn y dirwedd hyfforddi yn y sector bwyd** yng Nghymru ar rai adegau. Er bod llawer o'r rhanddeiliaid ar raddfa lai yn cysylltu diffyg cyllid â chyfleoedd hyfforddi prin, roedd rhanddeiliaid ar raddfa fawr yn feirniadol o ansawdd hyfforddiant a ariannwyd gan y llywodraeth ac yn ffafrio ymgynghori preifat neu gymwysterau lefel uchel ffurfiol. Roedd hyfforddiant a ddarparwyd gan ystod eang o actorion ar sail ennill grantiau gan y llywodraeth yn cael ei ystyried fel un a allai fod yn **niweidiol i gysondeb ac ansawdd** o gymharu â'r cyllid sylfaenol a ddarparwyd i sefydliadau profiadol y gellir ymddiried ynddynt.

Mae New Entry Sustainable Farming Project[35] yn dangos sut y gall dysgu fod yn gyfrwng i ddod â gwahanol actorion ynghyd i adeiladu systemau bwyd cynaliadwy a chyfiawn.



### Astudiaeth Achos Rhyngwladol: New Entry Sustainable Farming Project

Cafodd New Entry ei lansio yn 1998 gan Ysgol Gwyddor Maeth a Pholisi Friedman Prifysgol Tufts i ddatblygu strategaeth i integreiddio mewnfudwyr a ffoaduriaid diweddar gyda chefndiroedd ffermio i amaethyddiaeth Massachusetts.

Drwy'r cynllun maen nhw'n cynnig hyfforddiant i ffermwyr, mynediad i dir a chymorth ar gyfer mynediad i'r farchnad. Eu cenhadaeth yw "gwella systemau bwyd lleol a rhanbarthol drwy hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr i gynhyrchu bwyd sy'n gynaliadwy, yn faethlon, ac yn ddiwylliannol-briodol a gwneud y bwyd hwn yn hygyrch i unigolion beth bynnag fo'u hoed, symudedd, ethnigrwydd, neu statws economaidd-gymdeithasol."

Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â chyfiawnder bwyd drwy'r CSA New Entry a'r Rhaglen Food Access. Mae'r cynllun CSA yn darparu marchnad ddibynadwy ar gyfer 20 o ffermwyr newydd. Mae'r rhaglen mynediad at fwyd yn darparu cynnyrch ffres i dros 2,000 o unigolion sy'n ansicr o ran bwyd drwy gynllun lle mae cymorth ariannol yn cau'r bwlch rhwng yr hyn y gall defnyddwyr ei fforddio a'r hyn sydd ei angen ar ffermwyr i dalu costau cynhyrchu ac ennill cyflog byw. Mae rhoddion, grantiau ac aelodaeth CSA yn rhoi cymhorthdal i gyfran y CSA gan alluogi unigolion ar incwm isel i gael mynediad at gynnyrch ffres a chynhyrchwyr New Entry i elwa ar incwm sy'n cael ei gynhyrchu drwy werthiannau'r rhaglen Food Access.

# Argymhellion Polisi

**Pan fydd gwerthoedd cydweithredol hunan-gymorth, hunan-gyfrifoldeb, democratiaeth, undod, cydraddoldeb a thegwch wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol, mae dulliau cydweithredol o weithio yn dangos potensial i gyfrannu at system fwyd gynaliadwy a chyfiawn. Er mwyn cyflawni hyn yng Nghymru, mae angen cefnogaeth bellach i ddulliau hyfforddi cydweithredol, mynediad i dir, prosesu a dosbarthu a marchnata.**

## Tri Maes o Argymhellion Polisi ar gyfer System Fwyd Gynaliadwy a Chyfiawn

### 1) Meithrin Dulliau Cynhyrchu Bwyd Cynaliadwy, Cyfiawn a Chydweithredol

Mae angen i bolisi amaethyddol Cymru sy'n gweithio i gefnogi **cynhyrchu bwyd cynaliadwy** a **chyfiawn** yng Nghymru fynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn cynhyrchu garddwriaethol a chnydau âr er mwyn darparu deiet iach, cynaliadwy a chyfiawn. Mae'n cydnabod rôl bosibl dulliau cydweithredol o weithio a gwerthoedd wrth gyflawni hyn.

a. Cefnogi'r broses o **ehangu cynnyrch garddwriaethol**, er enghraifft, drwy brentisiaethau, hyfforddiant a mentora, ac mae'n rhoi cymorth dewisol i ffermwyr cig a llaeth presennol sydd â diddordeb mewn arallgyfeirio i gynhyrchu garddwriaethol.

b. Cefnogaeth gyda **mynediad i dir** ar gyfer newydd-ddyfodiaid sy'n ceisio gweithio ar y tir yn gydweithredol ac yn gynaliadwy a mynd i'r afael â chyfyngiadau presennol y broses gynllunio ymhellach - er enghraifft caniatâd cynllunio ar gyfer canolbwyntiau dosbarthu cydweithredol, canolbwyntiau bwyd a anheddau.

### 2) Cyd-gynhyrchu Economïau a Diwylliannau Bwyd lleol trwy Ganolbwyntiau Bwyd

Mae angen i amgylchedd polisi integredig yng Nghymru gydnabod y cyswllt hanfodol rhwng bwyd cynaliadwy a chyfiawn, diwylliant bywiog, ac iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn gofyn am gynllun gweithredu Cymru gyfan sy'n catalyddu economïau bwyd lleol drwy ddatblygu **canolbwyntiau bwyd cydweithredol** a **chanolfannau bwyd cymunedol**.

Gall **canolbwyntiau bwyd cydweithredol** gefnogi cynhyrchwyr drwy brosesu a dosbarthu cydweithredol, gan alluogi adnoddau a mynediad i farchnadoedd lleol. Gall **canolfannau bwyd cymunedol** fod yn lleoedd pellach i gymunedau amrywiol yng Nghymru ddod at ei gilydd i gael gafael ar gynnyrch ffres iach, lleol a fforddiadwy, meithrin diwylliannau bwyd bywiog, addysgu am werthoedd ac egwyddorion cydweithredol a chatalyddu arloesedd a mentrau bwyd lleol.

Gyda'i gilydd gall canolbwyntiau bwyd cydweithredol a chanolfannau bwyd cymunedol feithrin economïau bwyd cydweithredol yng Nghymru a grymuso cymunedau i gyflawni dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn.

a. Cymorth sefydlu (gan gynnwys cyllid a chyfraddau cymorthdaledig) ar gyfer **prosesu cydweithredol** (yn enwedig mewn cig, llaeth, grawnfwydydd a chynhyrchion sy'n seiliedig ar blanhigion).

b. Cymorth ar gyfer seilwaith a sefydlu i gymunedau amrywiol yng Nghymru i ddod at ei gilydd i greu **canolbwyntiau bwyd cydweithredol** a **chanolfannau bwyd cymunedol.**

## 3) Cefnogi Economïau Cydweithredol yng Nghymru: Gwybodaeth, Hyfforddiant a Chyngor

Mae system fwyd gynaliadwy a chyfiawn yn cyd-fynd â gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol. Er mwyn i'r ddau gefnogi ei gilydd, mae angen **addysg** ynghylch egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol a systemau bwyd cynaliadwy a chyfiawn. Bydd ymgorffori addysg mewn perthynas â gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol ym mholisi Cymru yn cefnogi ac yn galluogi cymunedau i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o greu dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn.

Bydd hyn yn **galluogi ehangu dulliau cydweithredol o weithio yng Nghymru a sicrhau cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth.**

a. Cefnogaeth i sefydlu **canolfannau hyfforddi rhanbarthol ar gyfer cynhyrchu bwyd cynaliadwy** sy'n defnyddio ac yn dwyn ynghyd y cyfoeth o wybodaeth sydd gan ffermwyr a pherchnogion busnes drwy gydweithio. Gallai'r canolfannau hyn gefnogi cydweithfeydd newydd a ffyrdd cydweithredol o weithio yn ogystal â galluogi achrediad a/neu gymorth ariannol i ffermwyr sydd am gyflwyno rhaglenni hyfforddeiaethau a hyfforddiant.

b. Cyllid craidd hirdymor gan y llywodraeth ar gyfer **hyfforddiant a chymorth** i **gydweithfeydd bwyd cynaliadwy** newydd a phresennol, **canolbwyntiau bwyd cymunedol** a **chanolfannau bwyd cymunedol**. Cyngor ac addysg bellach ar ffyrdd cydweithredol o weithio a strwythur cyfreithiol cydweithredol wedi'i deilwra i'r sector bwyd sydd ar gael i fusnesau waeth beth fo'u maint neu eu trosiant.

c. Ymgorffori **addysg gydweithredol** ym mholisi addysgol a gwasanaethau darparu busnes Cymru.

**Mae'n bryd yn awr i wahanol ganghennau o'r llywodraeth a gwahanol bleidiau gwleidyddol gydweithio i greu polisi bwyd cydlynol, traws-sectoraidd ar gyfer Cymru, a fydd yn sicrhau dyfodol bwyd cynaliadwy a chyfiawn yng Nghymru.**


# Atodiad

## Methodoleg

Ar gyfer yr adroddiad hwn, fe wnaethom geisio siarad ag amrywiaeth eang o gydweithfeydd o ran swyddogaeth, graddfa a sector sy'n gweithredu o fewn y system fwyd yng Nghymru. Nodwyd nifer o sefydliadau allweddol yn y sector garddwriaeth, cynnyrch llaeth, cig, prosesu a bwyd, ynghyd â nifer o sefydliadau cefnogol allweddol yn y sector. Gwelwyd fod cydweithfeydd yn y sectorau cig a llaeth yn tueddu i fod yn gydweithfeydd consortiwm mawr a chanolig eu maint, tra bod y rhai mewn garddwriaeth yn fwy tebygol o gynhyrchu cynnyrch organig neu gynaliadwy ar raddfa fach.

Fe wnaethom gyfweld â deuddeg rhanddeiliad a oedd yn cynrychioli naw o fusnesau cydweithredol, dau sefydliad a oedd yn gweithio gydag egwyddorion cydweithredol yn anffurfiol, a chynrychiolydd o Ganolfan Cydweithredol Cymru (gweler ffig. 1). Dilynwyd canllaw cwestiynau cyfweliad yn ystod cyfweliadau. Ategwyd yr ymchwil gan ganllawiau'r BSA a Phrifysgol Caerdydd ar foeseg ymchwil.[36]

**Ffigur 1 Sampl o gydweithfeydd yn ôl swyddogaeth, graddfa a sector.**



# Ôl-nodiadau

[1]Dim ond 24% o bobl yng Nghymru sy'n bwyta 5+ y dydd. Llywodraeth Cymru. (2017) Arolwg Cenedlaethol Cymru. Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/nationalsurvey/?slideId=2&topic=population_health&tab=el_home&lang=en.
[2] Yr achos dros weithredu ar ordewdra yng Nghymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/97832 [cyrchwyd ym mis Gorffennaf 2019]
[3] https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/end-year-stats/ [cyrchwyd ym mis Gorffennaf 2019]
[4] Willett, W., Rockström, J., Loken, B., Springmann, M., Lang, T., Vermeulen, S., Garnett, T. et al. 2019. "Food in the Anthropocene: the EAT–Lancet Commission on healthy diets from sustainable food systems." *The Lancet.* 393 (10170): 447-492.
[5] Lang, Tim, T. Lewis, T. Marsden, ac E. Millstone. "Feeding Britain: food security after Brexit." (2018). Gweler hefyd Steffen, W. et al. (2015). "Planetary boundaries: Guiding human development on a changing planet." Science 347, no. 6223: 1259855
[6] https://gov.wales/welsh-government-makes-climate-emergency-declaration
[7]Prosesu bwyd yw'r enw a roddir ar unrhyw ddull sy'n cael ei ddefnyddio i droi bwydydd ffres yn gynhyrchion bwyd. Gall hyn gynnwys un neu gyfuniad o'r canlynol: golchi, torri, pasteureiddio, rhewi, eplesu, pecynnu a llawer mwy. https://www.eufic.org/en/food-production/category/food-processing
[8]Cyfrifwyd y ffigur drwy ddefnyddio set ddata ar gyfer yr holl fentrau cydweithredol cofrestredig yn y DU ac yna nodi busnesau cydweithredol 'byw' yng Nghymru ym maes Amaethyddiaeth, Cyfanwerthu neu Fanwerthu gyda ffocws ar fwyd. Set ddata o set ddata agored Cydweithfeydd y DU (https://www.uk.coop/open-data) [cyrchwyd ym Mehefin 2019]
[9] Dechreuodd y rhaglen Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol yn 2004 ac ar ei hanterth roedd yn cynnwys tua 300 o gydweithfeydd bwyd cymunedol mewn lleoliadau fel ysgolion ac eglwysi ac yn dod â ffrwythau a llysiau fforddiadwy i gymunedau drwy brynu ar y cyd a'u cysylltu'n uniongyrchol â chynhyrchwyr. Daeth yr arian ar gyfer y rhaglen hon i ben yn 2015 ac mae'n anodd mesur faint o'r cydweithfeydd hyn sy'n bodoli o hyd ac ni lwyddwyd i ddod i unrhyw rai yn ystod y gwaith cwmpasu ar gyfer yr ymchwil hwn. https://www.publichealthnetwork.cymru/en/shared-practice-directory/community-food-co-operative-programme/
[10] Gweler https://www.country-markets.co.uk/
[11]Y Gynghrair Gydweithredol Rhyngwladol. 2018. Co-operative identity, values & principles. ICA: Brussells. https://www.ica.coop/en/co-operatives/co-operative-identity
[12] Ibid.
[13] Ibid.
[14] Dyluniadau eicon a briodolir i wahanol greawdwyr - https://thenounproject.com/
[15] (Willet et al., 2019).
[16] Ibid.
[17] Just Food. 2010. What is Food Justice? New York: Just Food.
[18] Agyeman, J., R. Bullard, and B. Evans. 2003. *Just Sustainabilities: Development in an Unequal World*. Cambridge MA: MIT Press.
[19] http://www.bancorganics.co.uk/
[20] DePasquale, Dan, Surbhi Sarang, and Natalie Bump Vena. 2017. "Forging Food Justice Through Co-operatives in New York City." *Fordham Urban Land Journal* 45: 909-950.
[21] Duda, John. 2016. The Italian Region Where Co-ops Produce a Third of its GDP. YES! Cylchgrawn Gorffennaf 5 2016.
Ëhttps://www.yesmagazine.org/new-economy/the-italian-place-where-co-ops-drive-the-economy-and-most-people-are-members-20160705

[22] Menzani, Tito, a Vera Zamagni. 2010. "Co-operative networks in the Italian economy." *Enterprise & Society* 11 (1): 98-127.
[23]Cracogna, Dante, Antonio Fici, a Hagen Henrÿ. 2016. *International handbook of co-operative law*. supra note 198 496-497.
[24] Crowell, Erbin. 2009. Cooperating Like We Mean It: The Co-operative Movement In Northern Italy. GEO 2 (II) http://www.geo.coop/node/357
[25] Agriculture and Food: Rhanbarth Emilia Romagna. https://www.regione.emilia-romagna.it/en/agriculture-and-food
[26]Y Comisiwn Ewropeaidd 2019. Esbonio Cynlluniau Ansawdd. https://ec.europa.eu/info/food-farming-fisheries/food-safety-and-quality/certification/quality-labels/quality-schemes-explained
[27]Llywodraeth Cymru 2015. Ystadegau Amaethyddol Cymru 2014. Uned Cyhoeddiadau Ystadegol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[28] Wheeler, A. 2016. Beyond 5 a day. Ar gael yn: https://foodmanifesto.wales/2015/09/25/beyond-5-a-day/.
[29] https://openfoodnetwork.org.uk/
[30]Mae'r dimensiynau cyfiawnder cymdeithasol yn cynnwys ystyriaethau hygyrch, cynhwysol, diwylliannol briodol, cyfranogol yn ogystal â rhai sy'n seiliedig ar iechyd. Mae bod yn economaidd gadarn yn golygu bod y system fwyd yn cadw cymaint o arian â phosibl mewn economïau lleol, yn darparu bywoliaeth i ffermwyr a bwyd sy'n hygyrch yn economaidd. Mae cadernid ecolegol yn awgrymu adfywio a thrawsnewid. Alison Blay-Palmer , Karen Landman , Irena Knezevic & Ryan Hayhurst. 2013. Constructing resilient, transformative communities through sustainable "food hubs", Local Environment, 18:5, pp524.
[31] https://www.thestop.org/
[32] Parker, J., Griffiths, E. Teifi, I. 2018. *Datblygiadau cydweithredol yn sector bwyd yng Nghymru.* Busnes Cymdeithasol Cymru: Aber.
[33] https://www.coedorganic.co.uk/
[34] http://caetancsa.org/en/
[35] https://nesfp.org/
[36] BSA. 201). *Datganiad ar Foeseg.* BSA: Durham. https://www.britsoc.co.uk/media/24310/bsa_statement_of_ethical_practice.pdf